**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau, Adfywio a Chyllid

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 5 Medi 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | E W Fitzgerald | L James |
| D H Jenkins | M H Jones | M Jones |
| S M Jones | J W Jones | M W Locke |
| B J Rowlands | W G Thomas | |

**Aelod(au) Cabinet**

| | |
|---|---|
| Y Cyng. David Hopkins | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol |
| Y Cyng. Robert Francis-Davies | Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Richard Rowlands | Rheolwr yr Uned Cyflwyno Strategol |
| Lee Richards | Arweinydd Tîm Canol y Ddinas |
| Scott Dummett | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Rachel Percival | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): C M J Evans, P R Hood-Williams, M S Tribe a/ac T M White

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o fuddiannau Personol a rhagfarnol.

2 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim.

3 **Cofnodion**

Cytunwyd ar gofnodion y Paneli Gwella Gwasanaethau a Chyllid a Datblygu ac Adfywio blaenorol.

4 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

5 **Alldro Ariannol Refeniw 2022/23**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Ben Smith, Cyfarwyddwr Cyllid a Swyddog Adran 151, a dilynwyd hyn gan gwestiynau a thrafodaeth.

- Yn gyffredinol, mae'r Alldro yn dangos bod gan bob Cyfarwyddiaeth danwariant yn erbyn eu cyllidebau gwasanaeth, gyda cheisiadau am bron £14m o danwariant gwasanaethau gwerth £18m i'w gario drosodd i 2023/24.
- Mae tanwariant ar gostau refeniw gwasanaethu cyllid cyfalaf o £8.6m oherwydd llithriant, benthyca ar gyfraddau islaw 2% isel a rhoi arian dros ben ar fenthyg dros dro ar gyfraddau amrywiol sy'n uwch na 5%.
- Mae £2m wedi'i dynnu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ynghyd â £8m o gronfeydd wrth gefn ysgolion sy'n is na'r hyn a dybiwyd yn wreiddiol, ond nid yw'n sefyllfa ariannol gynaliadwy yn y dyfodol.
- Dangosodd treth y cyngor warged bach o £32,000.
- Mae Prosiect Oracle wedi cario £3.8m drosodd i'r flwyddyn ariannol hon.
- Mae'r cyngor wedi cymeradwyo benthyca £50m pellach ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol a £25m ar gyfer Cynllun Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol y Mwmbwls, ond nid oes cynlluniau i fenthyca hyn yn y tymor byr nes bod cyfraddau llog wedi gostwng yn sylweddol.
- Mae pwysau chwyddiant sylweddol, parhaus, dyfarniadau cyflog heb eu datrys a chynnydd mewn costau ynni yn 2023/24.

6 **Alldro Refeniw 2022/23 - Cyfrif Refeniw Tai (CRT)**

Cyflwynodd Ben Smith yr adroddiad a dilynwyd hyn gan gwestiynau a thrafodaeth.

- Mae llithriant ar y rhaglen gyfalaf wedi arwain at danwariant ar ariannu refeniw cyfalaf o oddeutu £6m, a bydd hyn yn cael ei gario ymlaen i'r flwyddyn nesaf.
- Mae incwm rhent wedi cynyddu £1.2m o'i gymharu â'r gyllideb.
- Mae'r Refeniw Tai bob amser yn cael ei glustnodi ar gyfer gwariant ar Dai Cyngor yn unig.

7 **Adroddiad Monitro Perfformiad Blynyddol 2022/2023**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. David Hopkins, Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad a Richard Rowlands, Rheolwr Perfformiad Corfforaethol, a dilynwyd hyn gan gwestiynau a thrafodaeth.

- Mae'r adroddiad yn dangos gwelliant cyffredinol gydag effeithiau'r pandemig yn dal yn amlwg.
- O ran perfformiad yn erbyn targedau, o 49 o ddangosyddion, roedd 25 wedi cyrraedd y targed neu wedi gwella arno, roedd 3 wedi methu eu targed ond roeddent o fewn 5%, ac roedd 8 wedi methu eu targedau. Doedd gan y 13 arall ddim targedau.
- O ran perfformiad o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol, o'r 49 o ddangosyddion, mae 22 yn dangos perfformiad sy'n gwella neu'n cynnal perfformiad, mae 2 yn dangos perfformiad sy'n dirywio ond o fewn 5% a 15 yn dangos tueddiadau perfformiad sy'n dirywio. Mae'r 10 dangosydd sy'n weddill yn newydd felly nid oes data hanesyddol.
- Mae'r meysydd perfformiad heb dargedau na data hanesyddol yn ganlyniad i fframwaith perfformiad gwasanaethau cymdeithasol cenedlaethol newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Mae diweddariad ar ymrwymiadau polisi wedi'i gwblhau ac adolygwyd dangosyddion perfformiad yn dilyn datblygu'r cynllun corfforaethol newydd. Adroddir am y set ddiwygiedig o chwarter cyntaf y flwyddyn newydd.

## 8 Adolygiad Perfformiad Blynyddol 202/23

Cyflwynodd y Cynghorwyr David Hopkins a Richard Rowlands yr adroddiad a dilynwyd hyn gan gwestiynau a thrafodaeth.

- Mae'r adroddiad hwn yn wahanol i eitem 7 am ei fod yn rhoi safbwynt ehangach sy'n edrych ar yr amcanion lles a'r cynllun corfforaethol. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Asesir cynnydd cyffredinol a'r rhagolygon am welliant gan ddefnyddio canlyniadau meini prawf ar gyfer pob un o'r chwe amcan lles gan ddefnyddio offer hunanfyfyrio gan bob Cyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaeth arweiniol sydd wedyn yn cael eu herio gan grŵp llywodraethu strategol.
- Mae meysydd ar gyfer gwella a nodwyd y llynedd gan Archwilio Cymru, y tîm Craffu a Llywodraethu a'r Pwyllgor Archwilio wedi cael sylw yn adolygiad eleni.

## 9 Cynllun Gwaith Drafft 23/24

Cytunodd y Panel ar y cynllun drafft ar gyfer 2023/24. Nododd y Cadeirydd y byddai ffocws ar brosiectau adfywio penodol a ddewisir gan y Panel yn hytrach nag adroddiad monitro chwarterol rheolaidd.

## 10 Llythyrau

## 11 Gwahardd y Cyhoedd

Gwaharddwyd y cyhoedd o'r cyfarfod am y rheswm y byddai'n cynnwys y tebygolrwydd o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i nodir ym Mharagraff 14 Adran 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.

## 12 Datblygiad Bae Copr (Llafar)

Darparodd Martin Nicholls, Prif Weithredwr ddatganiad a oedd yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol, a dilynwyd hyn gan sesiwn gaeedig.

- Ar 18 Awst, cyhoeddodd Buckingham Group hysbysiad o'i fwriad i benodi gweinyddwr. Aeth llawer o'r busnes i ddwylo'r gweinyddwyr yn ffurfiol ar 4 Medi. Ar adeg y cyfarfod hwn, nid oes unrhyw gysylltiad wedi'i wneud â'r gweinyddwr eto.
- Bu heriau parhaus o ran darparu'r maes parcio fodd bynnag mae'r elfennau eraill wedi'u cwblhau a'u trosglwyddo. Mae cyngor cyfreithiol yn cael ei gymryd gyda'r bwriad o gwblhau'r prosiect cyn gynted â phosib.
- Bydd swyddogion ac Aelodau yn gweithio i nodi contractwr ac amserlen addas i gyflawni'r gwaith sy'n weddill, gan ddefnyddio'r gyllideb sydd ar gael sydd ar ôl.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30am.

**Cadeirydd**